YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LII. MAI, 1952 RHIF 5.

Cristnogaeth a Gwareiddiad.

Gan y Parch. NOEL JAMES, B.A., Caerfyrddin.

YMAE dweud fod ein ffordd o fyw yng Ngorllewin Ewrop, ein dulliau, ein safonau, ein crefydd a'n moesoldeb, hynny yw, ein *gwareiddiad* yn arddangos y Ddeddf Ddwyfol yn beth chwerthinllyd i'w ddweud yn yr oes hon. Ond dyna fu credo holl wareiddiadau'r byd yma hyd yn hyn yn eu tro. A heb rhyw gred felly, ni allodd yr un gwareiddiad ymgynnal nac ymbarhau. Dyna fu natur credo hen wareiddiadau'r Aifft, Babilon, Ninife, Groeg, Rhufain ac Israel a dyna a fu credo ein gwareiddiad traddodiadol, gorllewinol, Cristnogol ninnau—*ein bod yn arddangosiad o'r dwyfol ar y ddaear.* Credai ym mhwysigrwydd enaid a phersonoliaeth yr unigolyn a chredai mai is-wasanaethgar i'r ysbrydol y dylai'r wladwriaeth a'i threfniadau ym myd amser fod ; credai mai un teulu mawr i Dduw yw'r ddynoliaeth yn gyffredinol. "Ble'r aeth yr Amen" ? Pa beth a ddigwyddodd inni ac i'n gwareiddiad a pham ydym yn amddifad o'r gredo yn yr oes hon ? Paham bod Ewrop bellach (gan gynnwys Prydain) yn arddangosiad eglur o danseiliad y gred hon ?

Tua adeg y Diwygiad Protestanaidd y bu dechrau'r drwg. Yn unpeth, cafodd Ewrop fel uned Gristnogol ei rhannu'n ddwy, un rhan yn Gatholig a'r llall yn Brotestant. Ac yn lle ceisio atal llif afon bydolrwydd (seciwlariaeth) ynghyd, dechreuodd y ddwy garfan Gristnogol ymladd â'i gilydd. Wedi blino ar dywallt gwaed ei gilydd nid oedd ganddynt na'r gallu na'r ewyllys i wrthsefyll y seciwlareiddio ar ddiwylliant a bywyd a oedd yn mynd rhagddo. Arweiniodd rhaniad yr Eglwys Gristnogol (ac enwadaeth Brotestanaidd yn nes ymlaen) at wladwriaeth fydol, ddi-grefydd ac aeth bywyd dyn yn beth is-wasanaethgar i amcanion economeg. Heddiw yr ydym yn byw nid er gogoniant i Dduw ond er gogoniant i'r peiriant economaidd ac athroniaeth bywyd Canghellor y Trysorlys.

Hanner ffordd ac ar hyd y ffordd rhwng y rhwyg Gristnogol uchod a'r ugeinfed ganrif gwelwyd meddylwyr ac ysgrifennwyr blaenllaw Ewrop yn troi eu cefnau ar Gristnogaeth yr eglwysi—yn Brotestant a Chatholig. Yn ei lle ceisiasant adeiladu corff o athroniaeth a chrefydd ar seiliau dynol, dyngarol, rhyddfrydol a bydol. Ymgais oedd hyn i osod seiliau newydd i wareiddiad Ewrop yn lle'r hen seiliau traddodiadol, Cristnogol. Yr ydym yn medi ffrwyth yr ymgais honno i geisio seciwlareiddio ein gwareiddiad yn yr oes hon, a dyna a wnawn am beth amser o hyn allan. Dyna paham y cafwyd Almaen, Eidal a Rwsia dotalitaraidd eisoes a dyna'r rheswm hefyd dros yr olwg druenus sydd hyd yn oed ar wledydd *democrataidd* fel Prydain a Ffrainc.

Annigonol a fu'r ymgais i roi sail ac adeilad seciwlar i'n gwareiddiad ac wele y mae Ewrop yn medi'r corwynt heddiw o'r herwydd. Aeth rhyddfrydiaeth, ddyngarol, seciwlar, resymol y ddeunawfed ganrif a'r ganrif o'r blaen yn fateroliaeth y gymdeithas farus, gapitalaidd. Brwydr yn erbyn yr olaf—ffrwyth yr agwedd ryddfrydol, fydol—sy'n digwydd heddiw. Arbrofion fu'r Almaen Hitleraidd ac Eidal ffasgaidd i geisio dod allan o hualau haearnaidd capitaliaeth fydol. A dyna yw Rwsia Stalin heddiw.

Aeth ein gwareiddiad yn hunanol, ei nod oedd byw iddo ef ei hun a dyma'r cancr sy'n difetha daear Duw ac enaid dyn. Fel gyda Rhufain gynt gwnaeth dyn ei hun yn y byd modern, bydol yn feistr y greadigaeth ac o ganlyniad y mae yn ei gael ei hun heddiw heb ddim ond "chwantau hesb" yn eiddo iddo. Canys y mae'r "gwareiddiad hamdden" presennol, lle y cyfyd dyn o'i wely i chwarae, lle bwyty ac yr ŷf yn wareiddiad o dywyllwch sy wedi cefnu ar Dduw ac oddi wrth y sawl y cuddiodd Duw ei wyneb.

[Dyledus wyf i syniadau rhai o lyfrau Christopher Dawson yn yr ysgrif hon.—N.J.]

Coed, Ysglod a Blawd Llif.

Gan Tom Evans, Aberaman.

(*Anerchiad i Gymdeithas y Carw Coch, Aberdâr*).

Teimlaf fel dweud, credwch fi a'i peidio, fel y dywedodd y Parch. William Cicero Williams, arwr "Gyda'r Glannau", Tegla Davies, "fy mod wedi fy ngalw o'r bru i drin coed". Na ryfeddwch, felly os mai prennaidd i'r eithaf fydd fy sylwadau hyn.

Rhyw fath o ymgodymu â coed, o lawer math yw fy hanes wedi bod erioed, ac nid yw fy llwybr wedi bod yn esmwyth iawn bob

pryd o'r herwydd. Dysgwyd fi'n fore iawn drwy gyfrwng collen ifanc, nad yw breibo, er engraifft yn talu'r ffordd, *bob amser*, o leiaf.

'Roedd fy ffordd yn grwt i'r ysgol yn mynd rhwng gwrychoedd o goed ir, ac hyd ymyl gallt o goed bert. Fe'm rhwydwyd, ac fe'm swynwyd, fel plant eraill, lawer gwaith gan ryfeddodau'r coedydd, ac aml, felly, yr awn yn ddiweddar i'r ysgol, a derbyn cerydd yr athro am hynny. Un tro, o leiaf, meddyliais mai da o beth a fyddai torri dwy neu dair gwialen ystwyth o'r cyll, a'u rhoi'n bresant i "mishdir". Nid oes eisiau dweud, wrth gwrs, mai arnaf fi eu treiwyd gyntaf, a gallaf ddweud o brofiad heddiw, ar ôl dros drigain mlynedd, fod gwialen gollen yn *pinsho* !

Wrth ddychwelyd adref yn y prynhawn wedyn, gormod oedd disgwyl imi gau fy llygaid wrth ddod drwy'r allt rhag edrych ar y gwyrthiau a oedd ynddi. Ac yn aml felly fe'm ceid yn llusgo cangen o bren crin "pren tân" ar fy ôl er meddalu tipyn o dymer mam ddisgwylgar. Un gosb naturiol, am fod yn hwyr, wrth gwrs, oedd gorfod torchi llewys i lifio a hollti'r pren yn ddarnau addas at y tân yn hytrach na chael ymuno yn y chwarae gyda phlant eraill.

Ni allai neb dorri a hollti cymaint o goed ag a wnes i'r dyddiau hynny, heb ddysgu llawer am natur a chymeriad llawer math o bren. Cofier fod gan *bren*, fel bod dynol, gymeriad, a bod yn rhaid iddo'i dyfu a'i fagu iddo'i hun. Mae llawer iawn os nad y cwbl o hynny yn dibynnu ar ei amgylchfyd, neu'r fagwrfa a gaiff ; a natur y pridd y mae ynddo ; ac ar y chwarae teg a'r llonydd a gaiff gan elynion i ledu ei wreiddiau a'i ganghenau. Os bywyd caled o frwydro ag amgylchiadau a gaiff pren, y mae yntau, fel rheol, fel bod dynol, yn dueddol i galedi a gerwino, ac nid ar chwarae bach y gellir wedyn ei drin a'i drafod. Ond wedi llwyddo, y mae gryn dipyn yn harddach ei raen, na graen y pren a gafodd y manteision gorau i dyfu. Mae brwydro ag amgylchiadau yn harddu graen bob amser.

Os y dylanwada amgylchiadau ar gymeriad pren, ni ddylanwadant fawr ar ei nodweddion fel aelod o'r *teulu* y perthyn ef iddo. Mae i bob teulu coedwigol ei noweddion arbennig ei hunan. Y naill am ei galedwch, y llall am ei feddalwch, neu ei ystwythder, etc. Arbenigrwydd pwysig a berthyn i bren deri, fel enghraifft yw ei gryfder a'i amharodrwydd i blygu er dim. Dywedir fod tua 300 math o goed deri i'w cael, eto mae'r nodwedd yma yn perthyn iddynt i gyd.

Nodwedd arall sydd i bren onnen, sef ei wytnwch a'i ystwythder, ac y mae'n ardderchog at goesau offer o bob math.

Rhaid adnabod natur a chymeriad gwahanol goed yn dda a gwybod am eu rhinweddau a'u ffaeleddau cyn y gellir gwneud y gorau ohonynt. Gall pren sydd yr union beth ar un pwrpas fod yn waeth na gwerth dim at bwrpas arall. Ond y mae coed i'w cael i ateb pob pwrpas. Gellir gwneud gwialen bysgota o rai ac y mae

eraill mor galed ac anystwyth â phres. Rhai ysgafn, rhai trwm, rhai yn nodedig am brydferthwch eu lliw a'u graen a rhai fel arall, ac o bob lliw bron.

Pam y mae cymaint o ddileit mewn coed ac ysfa am eu crynhoi wedi bod yng ngafael â mi erioed ? Mi garwn wybod !

Pan oeddent yn gwneud y relwe o Landysul i Gastellnewydd Emlyn, a minnau yn dychwelyd gartref o Landysul yn grwt 9 i 10 oed, un nos Sadwrn, sylwais fod tip y reilwe wedi cyraedd hyd at ymyl llwyn o focs braf yng ngardd Penddôl—hen fwthyn a'i ben wedi mynd iddo, a oedd ar lwybr y ffordd haearn. Erbyn nos Lun, byddai'r tip wedi ei lwyr gladdu, a meddyliais mai galanas a gwastraff a fyddai hynny. Yr oedd pren bocs yn werthfawr iawn yn fy ngolwg y pryd hwnnw. Gwelais fy nghyfle, gan nad oedd na nafi na gaffer yn agos i'r lle ar nawn Sadwrn.

Wedi cyrraedd gartref, felly, dyma lif fach 'nhad dan fy nghot, ac yn ôl yn llechwraidd â mi am filltir o ffordd i ' Penddol,' a thorri'r llwyn dan lenni'r nos. Dychwelyd yn lladradaidd â'r bonyn gwerthfawr gyda mi. Ofni cwrdd â neb ar y ffordd yn ddirfawr ! Ei daflu'n dawel fach, heb i neb wybod, i hen dowlad gartref. Methu cysgu am nosweithiau nac edrych neb yn ei lygad am ddyddiau wedyn. Fel mater o ffaith, ni chredaf y dywedai neb ddim wrthyf pe gwyddai'r byd beth a wnawd gennyf.

Rhyw ugain mlynedd yn ôl, wrth chwilio'r hen ddowlad mi ddeuthum o hyd i'r darn pren, sydd a'i wreiddiau wedi hen bydru dan dip y relwe, ger Llandysul. Mae darn ohono gennyf yma heno i brofi nad breuddwyd oedd.

Pan oeddwn tua naw mlwydd oed, a chyn bod sôn am wneud gwaith llaw mewn ysgol ddyddiol, cofiaf imi fynd a *rascal* (rhasal) 'nhad (sef *spokeshave* yn Saesneg), i'r ysgol ynghyd â darn o bren onnen sych, da, a gweithio coes morthwyl ohono. Gweithiwn yn ystod y "plis-me-gowt" a "plis-me-gowt" bach a chanol dydd nes ei gorffen, a chofiaf imi dderbyn tair ceiniog amdani gan feisiwn a ddigwyddai fod yn gweithio yn yr ysgol ar y pryd. Dyna, mi dybiaf a wnaeth imi gredu yn ddigamsyniol fod defnydd Saer ynwyf. Yr oedd tair ceiniog yn arian mawr i mi'r pryd hwnnw !

Pan oeddwn tua phymtheg oed, fe'm prentisiwyd, drwy dalu ychydig bunnoedd, at saer gwlad nodedig o fedrus a deheuig, sef Thomas Jones, Cwm Bangor. Gweithiwr caled a diwyd ydoedd, ac yn eithriadol ei fedr gyda phob math o beiriannau fferm a ffatri peiriannau dyrnu a nithio, ogedi a chlwydi, coesau rhofiau a phladuria ynghyd â chadeiriau pladuriau torri llafur, rhacanau, a chambrenni, *certi* o bob math, yn *gists* a *chambos*, wagenni a whilberi ac olwynion iddynt. *Tai-para-byth* hefyd, nid y *pro-tems*" a adeiledir heddiw, ynghyd â phob math o gelfi fel y byddai'r galw, a hynny o'i ben a'i biniwn ef ei hun ac heb blan yn y byd i fynd wrtho, a'r bapur o leiaf.

Un o'r pethau cyntaf a gofiaf imi orfod ei wneud, oedd ' whilber.' Er hynny, yr oedd gennyf i batrwm i fynd wrtho, sef y ' whilber ' a oedd ar y clôs y tuallan i'r siop waith. Bûm am wythnos gyfa wrthi, heb help na chyngor neb. Treuliwn y rhan fwyaf o'm amser yn rhedeg rhwng y gweithdy a'r ' whilber ' i *giwco* a chymryd mesurau. Gorffennwyd hi o'r diwedd,—ond heb yr olwyn—a hithau bellach wedi ei phlanio a'i phlamo i drwch y blewyn yn unol â'r patrwm.

Efallai na wŷr un ohonoch chwi fod miloedd o wahanol fesuriadau yn perthyn i ' whilber.' A wyddwn innau ddim cyn hynny fod coes dde ' whilber ' $\frac{1}{8}''$ yn hirach na'r goes chwith !

Canmolwyd fi am fy ngwaith, ond dywedwyd wrthyf yr un pryd, mai gwaith diwrnod, o chwech y bore hyd chwech yr hwyr oedd gwneud ' whilber,' yr olwyn a'r cyfan. (Carwn weld saer a wnai whilber debyg mewn wythnos heddiw). Gwerthwyd y whilber honno fwy na deugain mlynedd yn ddiweddarach ac heb fod yn edrych yn fawr gwaeth ei golwg.

Disgwylid i'r saer gwlad i fedru troi ei law at bob math ar waith, a gwybod y ffordd i ddefnyddio pob math ar offeryn at dorri. Disgwylid iddo eu gwneud hefyd at y galw, a'u hogi—ac wrth gwrs, i wybod pa fath ar bren a fyddai'r gorau i gwrdd â'r gwahanol ofynion. *Deri, ynn, ffawydd, masarn, llwyfen a bedw* a ddefnyddid amlaf o'r coed caled ; a'r *pîn* a'r *larch* o'r coed meddal. Yr oedd digon o'r coed hyn yn tyfu yn agos atom. Hefyd, ceid "acshone" o goed "mowr" a "brige" yn awr ac yn y man, drwy'r ardal.

Yr amser gorau i gwympo'r coed yw'r gaeaf, pan nad yw'r sug mor denau, ac felly heb fod mor dueddol i redeg a cholli'i nodd. Y cam nesaf yw eu sychu'n briodol, ac mae hyn yn waith pwysig iawn, iawn. Y mae i'r sychu yma ddwy ran o leiaf. Wedi'r cwympo bydd yn rhaid gadael y pren am flwyddyn, dwy, tair neu bedair blynedd ar y ddaear. Mae'r amser yn dibynnu ar faint a math y pren.

Nid yw'r rhan hon o'r sychu yn gymaint er mwyn gwaredu'r pren o'r lleithder cynhennid sydd ynddo, yn gymaint ag i roi amser teg i gymaint ag sydd bosibl o'r sug ag sydd ynddo i droi'n bren ei hun. Ni wnaif gwlaw a rhew ac eira ddim drwg iddo ar yr adeg yma o'r broses, na'r haul chwaith ryw lawer iawn. Y mae'r rhan yma o'r sychu yn llawer rhy araf i'r oes wyllt hon, ac felly yn aml heddiw fe deflir y goeden i ddŵr rhedegog am fis neu ddau, fel y gallo'r dŵr gario allan y sug o'i chyfansoddiad. Er y gellir ei sychu wedyn yn llawer cynt ni fydd yn agos cystal pren ar ôl hynny. Mi fydd yn llawer mwy brau, a llai caled a gwydn, heb fod yn agos mor bert ei raen.

Yna fe ddaw'r llifio yn drawstiau, planciau ac estyll, a'r rhan arall o'r sychu, neu'r *seasoning* yn dilyn. Golyga hyn ddodi'r estyll ar le gwastad mewn math o sied benagored, y naill astell ar ben y

llall gyda stripyn o bren tenau rhyngddynt—i ganiatau'r awyr i redeg rhyngddynt. Arafa'i gyd y gwneid hyn eto, gorau'i gyd. Os ei gwneir yn rhy gyflym, fe gracia'r estyll ac fe ânt allan o shâp, ac yn anwastad ac anodd eu trin o'r herwydd. Nid cyn iddynt ddod yn sych fel asgwrn—*bone dry*—y maent yn barod i wneud celfi etc. ohonynt.

Nid llawer o felinau llifio oedd i'w cael yn fy hen ardal, ac yr oedd y rheiny yn anodd eu cyrchu. Yr hyn a wnaem ni, felly, oedd eu llifio'n hunain yn y "pwll llif". Yn gyntaf, rhaid oedd "sgwaro'r" pren, sef ei naddu yn weddol sgwâr a bwyelli, yna ei rholio drwy rym braich ac asgwrn i orffwys ar ddau drawst a oedd dros y pwll, i'w lifio yno gyda llif 7—9 troedfedd o hyd. O bob gwaith i roi ymarfer corff, ac i gadw dyn yn wresog drwyddo, ar y tywydd oeraf, a'r *job* iachaf am mai allan yn yr awyr agored y gwnaed hyn—*llifo yn y pwll llif amdani.*

Safai'r pen llifiwr—y *boss*, ar ben y pren, a oedd wedi ei farcio'n barod, gyda'i wyneb ar ddannedd y llif gan facio yn ôl wrth lifio, tra safai'r isaf o'r ddau lifiwr â'i wyneb at gefn y llyf. Bûm lawer gwaith felly yn isaf o ddau lifiwr yn ennill fy ngwres ac heb ennill fawr ddim arall ond hynny—a phrofiad.

Daeth llyfr a gyfrifid yn safonol i'm llaw rhyw bymtheg mlynedd yn ôl. Ysgrifennwyd ef gan wneuthurwr wagenni fferm a oedd yn byw yn Petersfield, a chredai mai ef oedd yr olaf yn y wlad a arferai lifio mewn pwll llif o'r fath. Ni wyddai, mae'n debyg, fod llawer eto'n fyw yng Nghymru, mi dybiaf, a fu wrth y gwaith llafurus hwn.

(*I barhau*).

Salmau'r Mynydd Ddoe ac Echdoe.

AMLINELLIAD O DDATBLYGIAD EIN CANIADAETH GYNULLEIDFAOL.

Gan Haydn Morgan.

Salmau'r Eglwys yng Nghymru.

Os na ddaeth y salmau cân ar unwaith, yn sgil protestaniaeth i bentrefi bychain Cymru, fel ag i rai poblocach, taeocach Lloegr, eto pan ddaethant fe gynwysasant yn eu llinellau holl fawredd a chynhesrwydd "yr hen iaith". Rhoddodd Edmwnd Prys i'w genedl salmau ystwythach a phrydferthach na rhai Lloegr.

Mydryddiadau cynganeddol y byddai'r rhai cynharaf Cymreig yn naturiol felly, a'r rhai cyntaf i gyd oedd eiddo Dafydd Ddu o

Hiraddug, ficer pabaidd Tre Meirchion, Fflint. Fe gyfieithiodd i'r Gymraeg (tua 1539) Wasanaeth Mair Fendigaid (*Officium beatae Mariae*) ac fe gynnwys chwech ar hugain o'r salmau, ynghyd â gweddïau.

Wele ddwy linell o Salm 132,—

"Llyma mor dda mor ddigrif mor eiddun
Yw cyd breswyliaw o frodyr yn gyfun".

Wele eto ddechreuad y Salm 1, gan Sion Tudur, gŵr a drosodd un salm ar ddeg ar fesur cywydd,—

"Dedwydd yw'r gwr diwydwaith
Ar na rodiodd mewn modd maith,
Wrth gyngor di gyfor dig
Annuwiolion an-nelwig".

Y mae'r llinellau hyn yn anghanadwy ond hwyrach y gellid eu cyd-adrodd.

Y cyntaf i fydryddu'r holl salmau mewn Cymraeg oedd William Middleton (Gwilym Canoldref), swyddog yn y fyddin, a orffennodd y gwaith yn yr India Orllewinol, yn 1597. Cyhoeddwyd y rhain wedi marwolaeth yr awdur, gan y Cymro Thomas Salisbury yn Llundain yn 1603, "Psalmae y Brenhinol Brophwyd Dafydh gwedu i cynghanedhu mewn mesurau Cymraeg. Gann Gapten Wiliam Middleton".

Cafwyd ail-argraffiad ohonynt yn 1827, dan olygiaeth Walter Davies, Manafon. Am resymau llenyddol gwladgarol; parchwn ein heniaith hen! Nid anwybodusion oedd uchelwyr Cymru. Sylwn ar yr hen ganu Cymraeg, yn ceisio cadw ystyr cywir, yn y llinellau canlynol, gan Middleton o'r Salm 1.

"Ond cyfraith Duw'n faith iawn fydd
Ei ddiddanwch dda ddeunydd".

Defnyddiodd bymtheg o fesurau Dafydd ab Edmwnd, ynghyd â thri ar ddeg a alwodd yn "ofer fesurau".

Cawn fesur englyn yn Salm 149:

"Dawnsiant a molant Ior mau,—yn union,
Mwyn annerch ar dannau
Ar dympan gwelan' yn gwau,
A thelyn berffaith olau".

a mesur englyn milwr yn Salm 117:

"Cans pery' i wâr drugaredd
A'i air union wirionedd
Byth ein mawr obaith a'u medd".

ag unodl-gyrch yn Salm 134 :

"Duw a wnaeth eithafon,
Daear, nef ac eigion.
Denfyn i ti lwyr fendith
Ddichwith o Gaer Seion".

Yn ei ragymadrodd dywed Salisbury :

"E dharfu i mi hefyd ddechre y Psalmau yn yr un fath Dôn gynghanedh yn Gymraeg, ag sydh arferol ei canu yn Saesoneg yn eglwys Loegr". Cyfeirio ydoedd at ei gyhoeddiad yn yr un flwyddyn, o salmau cân Edward Kyffin, a ddibennodd hanner cant o'r salmau pan ei torrwyd i lawr gan y pla mawr yn Llundain 1603-4. Felly, dim ond y tair ar ddeg yn "Rhann o Psalmae Dafydd Brophwyd" sydd ar gael ; mwy na thebyg i'r gweddill ddiflannu yn y tân mawr, y flwyddyn ganlynol.

Ysgrifennodd Maurice Kyffin yn ei ragymadrodd i'w gyfieithiad Cymraeg yn 1595, o "*Ddeffynniad Ffydd Eglwys Loegr*", *gan John Jewel Esgob Salisbury.* "Gwaith rheidiol iawn fydde troi'r Psalmau i gynghanedd gymraeg, nid i gynghanedd Englyn, nac Owdl, na Chowydd, nag i un fath yn y byd, ar gerdd blethedig . . . eithr i'r fath fesur, a thôn cynghanedd ag sydd gymeradwy ymhob gwlad".

Eiddo ei frawd, Edward Kyffin, yw'r canu rhydd cyntaf *argraffedig*, yn Gymraeg, dywed hwn yn ei ragair i'w Psalmae :

"Wrth weled mor ofalus ydyw ieithyddion ereill, am ei gwlad iaith . . . pa faint mwy y dylem ni ymgeleddi eyn hiaith eyn hunain, yr honn a ddeffynnodd y Goruchaf Dduw, yn yr unlle yn y deyrnas honn ers seith gant ar higen o flynyddoedd, ag y chwaneg, ymysg cyn-niver o amrafaelion Genhedloedd, terfyscoedd a dinistroedd, a fu i'n mysc, yn y amser hwnnw i geisio difa, a dinistrio yr iaith a'i phobl yn llwyr".

Wele uchelwr yn 'sgrifennu atom ninnau heddiw ! Rhown linnellau o'r Salm 1, i ddangos ei fesur seith-syll, di-gynghanedd.

"Dyn ni rodia, dedwydd yw,
Ynghyngor an-nuw ddynion,
Yn ffordd pechadwyr ni sai,
Ni stedda'n stol gwatworion".

Nid efe oedd y cyntaf ychwaith i ganu'r salmau ar fesurau rhyddion, ond James Parry o Ewyas Lacy yn y rhan Gymreig o Swydd Henffordd, a ddygpwyd oddiar Gymru ; ond ni chyhoeddodd ef ei waith. Danfonodd ei lawysgrif, o'r holl salmau, i'r Dr. William Morgan, pan oedd hwnnw'n esgob Llandaff (rhwng 1595—1601). Amlwg ydyw, oddi wrth Gymraeg Parry, nad oedd ef wedi manteisio ar gyfieithiad y Dr. Wm. Morgan o'r Beibl. Tebyga llawer o'i linellau i rai Edmwnd Prys (cyfaill Wm. Morgan), ond amlycach

yw, os manteisiodd un ar y llall, nad Parry oedd hwnnw. Gwelwn hefyd fel y tebyga iaith Henffordd, i'n tafodiaith ni yng Ngwent a Morgannwg, yn y llinellau seithsyll canlynol o Salm 1.

> "Gwyn fyd y dyn ni ai
> Ar ffyrdd y rhai annuwiol,
> Ac na cherddodd ddim ar draws,
> nac isde ar glaws gwatwarol".

Gwelwn yn llinellau cyfieithiad Edmwnd Prys (o'r un Salm) Gymraeg hyfryd y Beibl dan feistrolaeth gan wir fardd.

> "Y sawl ni rodia dedwydd yw
> Yn ol drwg ystryw gyngor
> Ni saif ar ffordd troseddwyr ffol
> Nid eiste'n stol y gwatwyr".

Dyma'r mesur salm cyffredin Cymreig 8.7.8.7. (sef yr awdl gywydd, heb y gynghanedd ganolig). Gwelwn bod rhaid canu dau sill ar y nodyn diwethaf—yn y tonau Seisnig ar ei gyfer—yn yr ail a'r bedwaredd llinell.

Wele ddechrau Salm 9, ar y dôn *Windsor* neu *Dundee* (sydd ar ei chyfer yn llyfr Prys) :

{ |r :— :r :m :f :m :— :r :r :d :— |f :— :l :s :f :m :f :— }
Clod - for - af Di fy Arglwydd Ion O'm calon ac yn holl(awl)

{ |f :— :l :s :f :m :r :r :d :— |f :— :s :r :f :m :r :— }
Ei ryfedd - od - au rof ar led, Ac mae'n ddyled eu can(mawl)

Ysgrifennodd Prys hefyd ar y mesur byr Cymreig 6.7.8.7. Wele ddechrau Salm 51, ar y dôn Southwell.

{ |r :— :f :r :m :m :r :— |f :— :s :f :m :r :m :— }
Tru - garedd dod i mi Duw o'th ddaion - i tyn(er).

{ |d :r :m :f :— :f :m :r :m :— |l_1 :t_1 :r :r :de :r :— }
Ymaith tyn fy enwir - edd mau O'th drugaredd-au la(wer).

Cawn y mesur hir yn ei Ganfed Salm. Ar ddiwedd ei lyfr cawn Ti Dduw a folwn, Cân Zacharias, Cân y Tri Llanc, Cân Fair, Cân Simeon a'r mawl wersi terfynol wedi eu troi i'r Gymraeg. (Yr olaf ar y gwahanol fesurau).

> "Gogoniant byth a fo i'r Tad,
> I'r Mab rhad â'r Glan Ysbryd,
> Fal y bu, y mae, ac y bydd.
> Un Duw tragywydd hyfryd".

Ond nid Prys oedd y diwethaf i drosi'r salmau ar gyfer yr eglwys yng Nghymru. Cyfieithodd George Parry (mab James Parry) a ddaeth yn rheithior Cheriton, ar ôl bod cyn hynny yn brifathro ysgol ramadeg Caerfyrddin—y salmau ar y mesurau arferol, ac ar rai mesurau caeth. Ysgrifennodd hwynt mewn tair rhan a chyflwynodd yr hanner cant cyntaf i Somerset, Arglwydd Worcester, Arlywydd Cymru a'r Gororau. [Cofier fod Llys Cyngor Cymru wedi parhau i reoli hyd at y flwyddyn 1689, ac na ddaeth Cymru wedyn i fod yn ddarn o Loegr yn llwyr hyd nes diddymu'r Sesiwn Fawr yn 1830. Parhaodd y Sesiwn Fawr i weinyddu'r gyfraith i Gymru *fel uned* hyd at hynny.

Arwyddodd yr ail ran i'r Arglwydd Arlington, a'r drydedd i Sir Thomas Williams, Royal Physician. Fe arddelai'r Cymru eu hiaith bryd hynny. Rhoddodd Parry (fel ei dad o'r blaen) ei ysgrifau yn nwylo esgob Llandaf (y tro hwn, Francis Davies, 1667—75). Buont ynghudd hyd nes cafwyd hwynt yn ddiweddar iawn, ar werth am ychydig geiniogau yn Lambeth. Sut y daethant i fod ar silff ar ochr y stryd yno, yng nghysgod palas archesgob Caergaint? Y maent yn awr yn Aberystwyth. Wele linellau o'i gyfansoddiad o Salm 84.

"Gwyn fyd aderyn brych y tô
A gafas yno letty,
A'r wennol folwen wnaeth ei nyth
Yn ddilyth i annedd-dŷ".

Gyda datblygiad y dôn gynulleidfaol, daeth yr angen am fesurau newydd. Cafwyd mydryddiad arall o'r salmau yn 1820 dan y teitl "Telyn Dafydd" a hynny gan Thomas William "Eos y Mynydd", Llanfihangel, Sir Drefaldwyn. Yn arddull drafferthus, amleiriog,—araf—a nodwedda ragymadroddion y cyfnod, dengys sut y cymerodd ef "y gorchwyl pwysig mewn llaw o gyfansoddi Salmau Dafydd gyda golwg ar yr angenrheidrwydd o'u cael ar amrywiol a gwahanol fesurau". Ymdrechodd at wneud y gwaith yn "llithrig" ac "ymgadwodd hefyd ei oreu"—"rhag rhoi nemor o eiriau Saesoneg na Chymraeg, rhy ddwfn ynddo, ond arferid iaith sathredig y wladwriaeth fel y gallo pawb ddeall yr hyn a fyddont yn ei ganu". Cafodd (sylwer ar gyflwr y ganiadaeth) "*gynorthwy y Parch. James Hamer, ac yntau'n gyfarwydd iawn yn rheolau canu—i ddilyn y nodau* (notes)". Fe gwch ei waith heddiw yn llwyd felyn yn y llyfr-gelloedd. Rhown yma ddechrau Salm 12 :

"Y mae hen orsedd gras yn rhydd
I bechadur,
Minnau anadlaf weddi brudd
Tan fy nolur.

Mae'r dydd nodedig wedi dod
Dyma'r amser,
O achub Seion er Dy glod
O'i chyfyngder".

Y mae'n amlwg fod tonau eraill heblaw'r salm-donau wedi dod yn arferedig erbyn hyn. Ni fu fawr ddefnyddio ar y mydryddiad hwn, gallwn feddwl, mwy nag y bu ar fydryddiad gwell Nicander (1850). Cyflwynodd Morris Williams ei waith i'r Arglwydd Landsdowne, Arlywydd Pwyllgor Addysg y Cyfrin Gyngor (cyn bod Bwrdd Addysg). Cafodd gydweithrediad yr esgobion Cymreig, ac fel Prys, ceisiodd gadw at yr ystyr ysgrythurol. Rhoddwn linellau cyntaf ei Salm 8.

"O Arglwydd Dduw ein Ior,
Mor brydferth ac mor fawr,
Yw D'enw sanctaidd Di
Ar wyneb daear lawr,
D'ogoniant gwych a roist uwchben
Uchelder eitha'r nefoedd wen".

Y mae'r emyn wedi dod i lanw lle'r salm fydryddol erbyn heddiw, ac felly, y mae Salmau'r Eglwys yng Nghymru, weithian, o amrywiol awduraeth. Eithr un awduraeth yn unig a gyplysir wrth hen salmau'r Eglwys Gymreig, sef eiddo Edmwnd Prys. Er i fydryddiad ystwyth a glân, arall ddod i fri, yr un a ddefnyddiodd Josiah Rees, gan mwyaf, yn ei gasgliad oedd eiddo'r emynydd Dafydd Jones o Gaeo. Eto, fe barhaodd mydryddiaeth Prys a'i acen eglur swynol i fod yn *ddiapason* yn y ganiadaeth eglwysig hyd at fore ein hoes ni.

Cyn gadael y testun presennol, carwn wneud un cyfeiriad at y Llyfr Gweddi a ddaeth allan yn 1770. Y mae ynddo bedair ar hugain o beroriaethau (mewn dau lais, alaw ac is-alaw) a baratowyd ar gyfer Salmau Prys gan Ifan William. Cyfaddasiadau o donau Seisnig ydynt heblaw wyth o'i waith ef ei hun, ond fe roddodd enwau Cymraeg iddynt. Y rhain oedd y tonau cyntaf ar gyfer yr Eglwys Gymreig oddi ar 1621 ac y mae'r sain ychwanegol ynddynt i ffitio'r mesur salm Cymraeg. Ar ddiwedd y llith yma gwelwch uno'r tonau yma ynghyd a phennill o eiddo Prys, a gwnaf hynny gan ofyn cwestiwn yr un pryd. A ganwyd y dôn a'r llinellau canlynol yng Ngellionnen neu yn yr Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar? Fe fuasent yn hollol adnabyddus i'r hen deidiau yno. Gallwn ddweud i sicrwydd iddynt gael eu canu laweroedd o weithiau yn Eglwys blwyf, Llangyfelach y sydd bum milltir o'r tŷ cwrdd cyntaf ac yn eglwys hynafol Sant Ioan, Aberdar sydd ar drothwy'r ail.

Tôn St. Mair (cyfaddasiad o St. Mary)



Salm 8.

O Arglwydd ein Iôr ni a'n nerth
Mor brydferth wyd drwy'r hollfyd,
Dy enw a'th barch a roist uwchben
Dayar ac wybren hefyd".

(*I barhau*).

Arholiad yr Ysgol Sul 1952.

PANTYDEFAID.
Safon I.
Thomas Terry Brown, Sally Aerona Evans, Marianne Ivanna Davies, Nannie Davies, Avril Lloyd-Jones, Jeffrey Davies.
Safon II (*Llafar*).
Ken Crabbe, Ronnie Davies, Eileen Davies, Eilir Jones.
Safon III.
Hannah Nesta Evans, William Dennis Brown, Margaret Elizabeth Aneira Jones.

CILIAU.
Safon II (*Ysgrifenedig*).
Ann Jonathan.
Safon III.
*Hilary Jonathan, *Llinos Lloyd.

CRIBYN.
Safon I.
Meuryn Thomas, Stanley M. Thomas, Margaret Jane Jones, David Tom Thomas.

CAPEL Y GROES.
Safon I.
Mary Richards, Anne Richards, Glenda Jenkins, Emlyn Davies, Bryan Jones, Carol Evans.
Safon II (*Llafar*).
Nella Jones, Dilwyn Thomas, Winston Rees, Bridget Kinsalla.

Safon III (*Ysgrifenedig*).
William Ronald Davies.

BRONDEIFI.
Safon I.
Jeffrey Jones, Meirion Davies, Tegwen Thomas, Gareth Williams, Denzil Williams.
Safon II (*Llafar*).
John Williams, Ann Williams.
Safon III.
*Ted Jones, Jean Griffiths, Barbara Jones, Mary Griffiths, Gwenda Morgan, Alun Jones.

CAERONNEN.
Safon I.
Emma Williams, Siân Williams.
Safon II (*Ysgrifenedig*).
*Olwen Davies, *Elsa Ceinwen Thomas.
Safon III.
*Wenna Thomas.

ALLTYBLACA.
Safon I.
John Llywelyn Gwarnant Williams, Lilian Davies.
Safon II (*Ysgrifenedig*).
*Betty Williams, Lena Evans, John Bundock, Pauline Williams.
Safon III.
*Gwendoline Jones, John Kenneth Walters, Derrick Jones.

CAPEL Y BRYN.
Safon I.
Helena Evans, John Williams.
Safon II (*Ysgrifenedig*).
*Edward Griffiths, Audrey Chaney, Nel Davies.

LLWYNRHYDOWEN.
Safon I.
David Jones, Richard Jones, Jessie Jones, Ann Jones.

BWLCHYFADFA.
Safon I.
David Emlyn Jones, Gwynfor Jones, David Tom Thomas, Randell Evans, Non Rowlands, Ieuan Evans, Jennie Evans, Doreen Evans.

CAPEL Y GRAIG.
Safon I.
David Lyndall Davies, Terry Evans, John Davies, Geinor Davies.
Safon II (*Llafar*).
Morfudd Thomas, Delcie Davies.
Safon III.
*Mary Thomas, Margaret Evans, Rowena Bignell, Ann Gwendoline Evans.

Cwmsychbant.—Neb yn ymgeisio.

Rhydygwin.—Neb yn ymgeisio.

* A ddynoda'r rhai a wobrwyir.

Sylwadau'r Arholwyr.

Diolchwn i'r sawl a fu'n paratoi'r plant gogyfer â'r arholiad. Maent un ac oll wedi *ennill* eu tystysgrifau eleni eto. Da o beth fyddai gweld yr un maes Llafur yn cael ei ddefnyddio ym mhob ysgol Sul a phe gwnaed ymdrech deg i eistedd yr arholiad ar y dydd a'r amser penodedig.

W. D. Jones.
D. Lloyd Lewis.

ER COF AM WILLIAM A MARY EVANS, GWELFRYN, LLANDYSUL.

Saer Maen oedd William Evans
A chyfaill i bob un,
O golli un mor hawddgar
Fe deimla'r fro yn flin.
Bûm yn ei gwmni droeon
Ar daith ymhell o dre,
A chwmni diddan ydoedd
Cymeriad yn ei le.

Cydweithio ar y muriau
Yng ngwlad y pyllau glo,
Heb feddwl gwelwn golli
Hen bartner gorau'r fro.
A'i briod hoff fel yntau
I'r dalar daeth ei rhan ;
Un wyliodd dros ei theulu
Yn ffyddlon ym mhob man.

Rhyw ffarwel fer a roddaf
Wrth dreulio'r hwyr brynhawn ;
Mor hyfryd yw'r addewid
"Mai cwrddyd eto a gawn".

Penlôn, Tregroes. D. Davies.

Esgyrn Sychion.

Gan Ceri Davies.
(Yn awr o Syra, Gwlad Groeg).

Esgyrn a fu testun pob sgwrs-amser-bwyd yma ers dyddiau ac o bob peth, *esgyrn dynol*! I fod yn hollol gywir, esgyrn henfamgu y plant sydd dan fy ngofal. Yr wyf, wrth fy swydd, yn weddol gyfarwydd â gweld ysgerbydau ond yn wir pan eir i sôn am esgyrn rhywun o'r teulu y mae'n beth pur wahanol.

Y mae'r cyfan yn codi unwaith eto oddi ar un arall o arferion rhyfedd yr Eglwys Uniongred Roegaidd, sef yw hynny, yr arfer o godi cyrff y meirw ymhen tair blynedd er mwyn bendithio'r esgyrn. Ddydd Gwener diwethaf fe welais gadw'r arfer barbaraidd a gwrthun yma â'm llygaid fy hun. Euthum i'r fan â'r lle yng nghwmni mamgu'r plant yma a chorff ei mam hi a welais yn cael ei godi—ei godi ar ôl gorffwys yn dawel am saith mlynedd.

Cyraeddasom yr Eglwys tua hanner awr wedi naw y bore a daeth yr offeiriad i'n cyfarfod a'n harwain tuag at y fynwent gyfagos. Adroddodd weddi ac yna a channwyll yn ei llaw a dyn arall yn gwmni, aeth yr hen wraig i lawr i fedd-gell ei mam. Agorwyd yr arch a'r ferch yn gobeithio cael un golwg ar ei mam ond ysywaeth y mae saith mlynedd yn amser hir. Yr oedd y dwylo ymhleth fel eu gosodwyd ond bellach nid arhosai pryd a gwedd. "Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn . . ."

Codwyd yr esgyrn ac ar ôl eu golchi'n lân fe'u rhoddwyd yn yr haul i sychu ac o'r fan honno aethpwyd â hwy i mewn i'r eglwys. Yn ystod y gwasanaeth offeren tywalltodd yr hen wraig win drostynt ac fe'u gadawyd unwaith eto dros y nos yn yr eglwys. Wedi cyrraedd yn ôl i'r tŷ prysurodd yr hen wraig i wneud 'teisen y meirw' a elwir yn rhyfedd iawn *goliwog*! Dyma'r resipi diwinyddol—barlys wedi'i ferwi, sinamon, perlysiau (spices), siwgr ac almond. Trefnir y cyfan yn ddestlus ar blat ond ni choginir mohoni. Danfonir y deisen i'r eglwys ac fe'i rhoir ar flwch yr esgyrn a bwriedir hi i fod yn fwyd i enaid y meirw.

Bore trannoeth ceir offeren arall, bendithir yr esgyrn eto ac fe'u rhwymir mewn lliain gwyn a'u rhoi yn ôl yn y blwch arbennig gydag enw'r person arno. Cloir y blwch ac fe'i dychwelir i'r fedd-gell. O hyn allan, caiff bob heddwch a all pridd a daear ganiatau.

Rhoddir y deisen, y *goliwog* i'r tlodion ac wrth ei bwyta fe ymgroesant gan ddywedyd, "Duw roddo orffwys i'w henaid".

Dylwn nodi cyn gorffen nad yw'r tlodion yn dilyn yr un arfer â'r gwŷr cyfoethog yn hollol. Gan nad oes gan y tlawd arian i brynu bedd-gell, rhaid iddynt gael un ar rent am dair blynedd.

Oni thelir y rhent yn gyson fe godir eu hesgyrn a'u gwaredu'n ddiseremoni. Os gallant dalu ychwaneg cânt wasanaeth bendithio a rhoi yr esgyrn yn y ' tŷ esgyrn ' cyffredin—rhyw fath o *left luggage office* eglwysig ! Y mae arwyddair y benglog a'r croesesgyrn uwchben drws y tŷ hwn ac yno mae'n debyg y mae pawb yn gytun byth mwy—heb sôn am *asgwrn y gynnen.* 30.3.52.

Y CAM CYNTA.

Ddoe y rhoes Jeffrey ei gyntaf cam,
A gofal pryderus yn nhrem ei fam ;
Siglai fel bâd o don i don,
A balchter fel gwynt mewn hwyl yn ei fron.

Ond beth yw'r pellter i China a 'nôl
At y pellter heddiw o stol i stol ?
Mae'i gamre'n sigledig, a'r ffordd ymhell,
O gydio'n fy mys y mae'n llwyddo'n well.

"Rhaid cripian cyn cerdded", a chwympo erioed
Cyn mynd fel y wiwer heb daro troed,
Ond dyna'r diwrnod y bydd yn ddyn
Pan groeso'r trothwy ar ei ben ei hun.

Ni wn ba orchest na gwobr sydd
Gan Ffawd iddo 'nghadw drwy gydol dydd
Ond gorau gwobor—cusan ei fam,
A'i orchest bennaf—ei gyntaf cam.

O.

GO ON, HESGIN !

Go on, Hesgin ! i ysgwyd—i'r gwaelod
Ofergoeliaeth lychlyd ;
Heb un hen Bab yn ein byd,
Ofn bŵ na fo i'n bywyd !

Cledlyn.

Priodasau.

Ar ddydd Sadwrn y 22ain o Fawrth yng Nghapelygroes unwyd mewn glân briodas MARY ANNE JENKINS, merch John a Mrs. Jenkins, Maesteg, Cribin, a DANIEL OLIVER HOWELLS, mab y diweddar Daniel Howells a Mrs. Howells, Rhoslwyn, Cribin. Daeth y ddeuddyn ieuanc adref o Lundain i briodi. Gweinyddwyd gan y Parch. J. Islan Jones, M.A. ym mhresenoldeb Mr. Watkins, y Cofrestrydd.

Mawrth 22, yng Ngalltyblaca, unwyd mewn priodas, SARAH GWENOGWEN JONES, Dyffryn, Drefach, Llanwenog ac EVAN JOHN JONES, Albion House, Landuar, Llanybydder. Gwasanaethwyd gan y Parch. S. E. Bowen.

Marwgofion.

Ar y bumed o Fawrth claddwyd gweddillion marwol MARY EVANS, 9, Railway Terrace, Henllan ym Mhantydefaid a hithau'n 76 oed. Ganwyd hi yn un o ddeuddeg ym Mhenbryn, a phan oedd hi eto'n ifanc symudodd y teulu i Bwllffein. Rhyfedd fel yr erys enw hen gartref ynghlwm wrth ambell gymeriad a hyd yr amser diwethaf adwaenid hon fel "merch Pwllffein". Ymbriodododd â David Evans, Camnant a bu fyw yn Esger, Cwrtnewydd, Llundain ac yn y blynyddoedd diwethaf hyn ymsefydlodd yn Henllan. Yr oedd yn wraig o gymeriad nodedig ac addfwynder a thiriondeb yn nodweddiadol ohoni trwy ei hoes. Yr oedd yn ffyddlon a gweithgar dros Undodiaeth a dyna deyrnged ei hen weinidog iddi ar ddydd ei hangladd. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. D. A. Williams, Carmel ; E. S. Davies, Capel Drindod a T. S. Davies, Bangor Teifi. Yn y capel gwasanaethodd y Parchn. Lewis Williams, D. O. Jones (Llanfair Orllwyn) a J. Marles Thomas gyda'r olaf a David Rhydderch yn gwasanaethu ar lan y bedd. Miss Nansi Davies, Sychdy oedd wrth yr Organ. Gedy briod, dwy ferch, dau fab ynghyd â phedwar brawd i alaru o'i cholli.

Ebrill 2, Capten JOHN DAVIES, priod Mrs. Sarah Davies, Hollis, Llanbedr yn 82 mlwydd oed. Cafodd ei daro'n wael yn ddisymwth a byr fu'r cystudd. Ganwyd ef ym mhentref Llwyncelyn, Aberaeron ac yno treuliodd ddechrau oes. Yno cyfarfu â morwyr lawer ac wrth glywed eu hanesion a'u storiau fe gododd awydd yn y bachgen am fod yn forwr. Aeth drwy'r arholiadau'n llwyddiannus a graddiodd yn gapten yn ifanc iawn. Fel gŵr ifanc awyddus i lwyddo, deallodd bwysigrwydd ymuno a chwmni da o berchen-

B.A. a J. Marles Thomas, M.A.—Unwaith eto yr ydym yn ddyledus i Mr. Jack Lewis ac amryw eraill (heb anghofio'r ddau M.C., Mr. Meredith Thomas, B.Sc. a Mr. Denzil Davies) am eu gwaith gyda'r *Whist Drives*.—Cafodd tri o'n aelodau y pleser o fod yng Nghymanfa Ganu'r Pasg yn Nhrebanos. Er gwaethaf y tywydd yr oedd nifer dda yn bresennol a chanu hwylus dros ben. Er hynny gwelwyd eisiau'r annwyl E. O. Jenkins a'r ugain neu rhagor a arferai ddod gydag ef o sir Aberteifi.—Llongyfarchwn Mr. Jenkin Morgan ar raddio ohono i fod yn dadcu !

PANTYDEFAID A'R GRAIG, LLANDYSUL.—Dydd Sul y Pasg, Ebrill y 13eg, cynhaliwyd gwasanaethau arbennig o ymgysegriad i'r ddwy gynulleidfa pryd y gwnaeth pob aelod ymdrech i fod yn bresennol. 'Roedd y diwrnod yn ffafriol, a gwelwyd y seddau gweigion gynt wedi eu llanw. Cynorthwywyd y Gweinidog yn y gwasanaethau gan ei briod. Yn y Graig yn y bore cynhaliwyd gwasanaeth i'r plant, ac anerchiad pwrpasol ar neges Iesu'r Pasg i'r Byd yn cael ei gyflwyno mewn dull y gallasai pob plentyn ei ddeall. Y gwasanaethau yma yw y cyntaf o gyfres a fwriedir eu cynnal er ad-ennill diddordeb yn y pethau da, ac i'n cysegru i ffyddlondeb, undeb a gwasanaeth. Boed i'r fendith barhau a'r ffyddlondeb i gynyddu.

BWLCHYFADFA.—Y mae Miss Violet Becket Thomas, Green Grove, Talgarreg wedi llwyddo i basio'r *Higher Division of the Royal School of Music* gydag anrhydedd. Mae Violet yn yr High School, Caerfyrddin a dyma'r ail arholiad ar y berdoneg y llwyddodd ei groesi. Ei hathrawes yw Miss G. Thomas, L.R.A.M., H.R.C.M., Caerfyrddin.

MR. D. T. WILLIAMS, ABERDÂR.—Yr oeddwn ar fin llunio paragraff i longyfarch ein llywydd am eleni ar gael ohono ei ethol yn Aelod o Gyngor y Gymdeithas Gyffredinol pan glywais newydd trist amdano. Fe'i tarawyd yn wael iawn ar y ffordd adref o'r siop a bu'r teulu bach mewn pryder mawr am oriau. Pan alwodd y gweinidog arno llwyddodd er gwaethaf y blinder i ddweud fod yn flin ganddo na fedrai ddod gyda mi i Frondeifi a Llanbedr a'r Cyrddau Blynyddol. Y mae Aberdâr yn anwylo D.T. ac ni chaiff ei weinidog gerdded dwy lath o'r dref heb i hwn a'r llall ofyn hynt ' Williams y Cop.' Ef bellach hefyd yw ' sbogen fawr ' yr Hen Dŷ Cwrdd, a mawr obeithiwn y caiff adferiad buan a llwyr fel y gallo eto ein gwasanaethu a'n harwain.

Y PARCH. T. OSWALD WILLIAMS.—Llongyfarchiadau calonnog ar daro buddugoliaeth fawr yr Etholiad Sirol y tro hwn eto.

CYFRANIADAU AT "YR YMOFYNNYDD"—Mr. D. T. Williams, Aberdâr, punt ; Urdd y Benywod, Alltyplaca, Dwy Gini. Clywaf fod rhagor ar y ffordd.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.